

GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL LLANELLI - SEILWAITH

(DAW'R NODYN CYFARWYDDYD HWN O GAM 1
CYNLLUN CYFLENWI CANOL TREF LLANELLI)

CYNNWYS

1	CEFNDIR	2
1.1	Cyflwyniad.....	2
2	TYBIAETHAU A WNAED	3
2.1	Cynigion y Cynllun Cyflenwi - Gorchymyn Datblygu Lleol....	3
3	ASESU, ARSYLWADAU A CHANFYDDIADAU	4
3.1	Dŵr Cymru / Welsh Water – CARTHFFOSIAETH	4
3.2	Dŵr Cymru / Welsh Water – CYFLENWAD DŴR.....	6
3.3	Wales and West – Cyflenwad Nwy	6
3.4	Western Power Distribution – Cyflenwad Trydan	6
3.5	British Telecom – Telathrebu	7
3.6	Virgin Media – Telathrebu.....	8
4	CASGLIADAU AC ARGYMHELLION - GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL	9
4.1	Casgliadau - Gorchymyn Datblygu Lleol	9
4.2	Argymhellion - Gorchymyn Datblygu Lleol	9
5	CYFYNGIADAU	10
	LLYFRYDDIAETH.....	11

ATODIADAU (GAN GYNNWYS ARDAL Y SAFLE)

A CARTHFFOSIAETH DŴR CYMRU / WELSH WATER

B CYFLENWAD DŴR DŴR CYMRU / WELSH WATER

C CYFLENWAD NWY WALES AND WEST

CH CYFLENWAD TRYDAN WESTERN POWER DISTRIBUTION

D BRITISH TELECOM

DD VIRGIN MEDIA

1 CEFNDIR

1.1 CYFLWYNIAD

Comisiynwyd WSP mewn cydweithrediad ag LDA Design, TC Consult a Chris Jones Regeneration gan Gyngor Sir Caerfyrddin i baratoi Adroddiad Cam 1 ar gyfer y Cynllun Cyflenwi Canol Tref Llanelli presennol. Byddai'r cyd-destun cynllunio ar gyfer y cynigion pan fyddent yn cael eu cyflwyno yn cael eu cynnwys o dan Orchymyn Datblygu Lleol. O ran y cyfleustodau presennol, mae Briff y Cleient yn cynnwys y gofynion canlynol:-

- Hysbysu a chynghori ar faterion yn ymwneud â chyflenwi dŵr a chapasiti trin - i gefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol a'r cynllun meistr ehangach trwy ymgynghori â Dŵr Cymru
- Hysbysu a chynghori ar faterion yn ymwneud â chyflenwi cyfleustodau eraill a chapasiti trwy ymgynghori ag awdurdodau statudol

Yn rhan o'r comisiwn, cynhaliodd WSP asesiad rhagarweiniol o'r cyfleustodau presennol o fewn yr ardal Astudio a gytunwyd. Nodir Arwynebedd y Safle ar ddechrau'r Atodiadau. Nodir arwynebedd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn y Gorchymyn ei hun.

Daethpwyd o hyd i'r wybodaeth ganlynol am gyfleustodau trwy gronfeydd data'r cwmni cyfleustodau ei hun ar y we ac fe'i cyflwynir yn Atodiadau A i Dd:-

- Dŵr Cymru / Welsh Water (DCWW) – cyflenwad dŵr a charthffosiaeth – Atodiadau A a B
- Wales & West Utilities (WWU) - cyflenwad nwy – Atodiad C
- Western Power Distribution (WPD) – cyflenwad trydan – Atodiad Ch
- British Telecom (BT) – telathrebu – Atodiad D
- Virgin Media (VM) – telathrebu – Atodiad Dd

Cysylltwyd â DCWW, WWU a WPD i ganfod a fyddai unrhyw broblemau posibl gyda chapasiti cyflenwi neu unrhyw waith uwchraddio a oedd ar fin cael ei wneud yng nghanol y dref a allai effeithio ar gynigion y Cynllun Cyflenwi.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan WSP ar gyfer cyfrif Cyngor Sir Caerfyrddin, yn unol â'r cytundeb gwasanaethau proffesiynol. Cyfrifoldeb y sawl y bwriedir iddo ei derbyn yn unig yw datgeliad unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r deunydd ynddo yn adlewyrchu dyfarniad gorau WSP yng ngoleuni'r wybodaeth a oedd ar gael iddo ar adeg ei baratoi. Cyfrifoldeb y trydydd parti yw unrhyw ddefnydd y mae trydydd parti o'r fath yn ei wneud o'r adroddiad hwn, neu unrhyw ddibyniaeth arno neu benderfyniadau i'w gwneud yn seiliedig arno. Nid yw WSP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am iawndal, os oes rhai, a ddioddefir gan unrhyw drydydd parti o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd yn seiliedig ar yr adroddiad hwn. Ystyrir bod y datganiad cyfyngiadau hwn yn rhan o'r adroddiad.

Mae fersiwn wreiddiol o ddogfen dechnolegol a anfonir yma wedi cael ei dilysu a bydd yn cael ei chadw gan WSP am o leiaf deng mlynedd. Gan fod y ffeil a drosglwyddir y tu hwnt i reolaeth WSP erbyn hyn ac na ellir sicrhau ei uniondeb mwyach, ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd o ran unrhyw ddiwygiadau i gael eu gwneud i'r ddogfen hon.

2 TYBIAETHAU A WNAED

2.1 CYNIGION Y CYNLLUN CYFLENWI - GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio cyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli. Dylid cyfeirio at y Gorchymyn Datblygu Lleol ynghyd â dogfennau ategol.

Yn seiliedig ar nifer yr unedau presennol ar safle'r Prosiect, mae'n annhebygol y gellid darparu mwy na 180 o addasiadau preswyl yn ffisegol. Yn ymarferol, mae'n hynod annhebygol y byddai ceisiadau ar gyfer cymaint â hyn o addasiadau yn cael eu cyflwyno o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol. Tybiwyd sefyllfa waethaf bosibl o 180 o unedau preswyl yn derbyn Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn at ddibenion yr asesiad hwn felly.

Pe bai ffigur o 100 o Gymeradwyaethau Hysbysiad Cychwyn ar gyfer unedau preswyl yn cael ei gyrraedd yn ystod oes y cyfnod 3 blynedd, yna bydd moratoriwm yn cael ei gyflwyno ar y Gorchymyn Datblygu Lleol a byddai'n cael ei adolygu gan hysbysu'r Cyngor llawn am y canlyniadau. Bydd adolygiad o'r fath yn cael ei hysbysu gan fewnbwn y rhanddeiliad hysbysu (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW).

Ar y sail hon y gwnaed yr ymholiadau i'r cwmnïau cyfleustodau.

3 ASESU, ARSYLWADAU A CHANFYDDIADAU

3.1 DŴR CYMRU / WELSH WATER – CARTHFFOSIAETH

Gwasanaethir canol y dref gan system dŵr budr a dŵr wyneb gyfunol hanesyddol yn bennaf. Ceir rhai datblygiadau mwy diweddar fel ASDA ac Eastgate sydd â systemau dŵr budr a dŵr wyneb ar wahân.

Derbyniwyd sylwadau gan Dŵr Cymru / Welsh Water (DCWW) ar 4 Ebrill 2017 ynghylch y capasiti carthffosiaeth fel a ganlyn:-

Er y bydd llawer yn dibynnu ar fanylion y Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Llanelli, rydym ni (DCWW) yn debygol o wneud cais i'r amodau cynllunio canlynol gael eu cynnwys:-

- *Cymeradwyaeth o strategaeth ddraenio cyn i'r datblygiad gychwyn i ddiogelu gorlwytho hydrologig o'r system garthffosiaeth gyhoeddus;*
- *Cyflwyno asesiad yn dangos yr effaith ar y carthffosydd cyhoeddus a dŵr o'r prif gyflenwad ar y safle a'r cynllun ac yn gyfagos atynt i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i liniaru'r effaith ar asedau o'r fath.*

Byddem hefyd yn awgrymu'r cyngor canlynol,

- *Mae cydsyniad rhyddhau yn ofynnol ar gyfer datblygiad a fydd yn arwain at ryddhad newydd o elifion masnach.*
- *Nid yw DCWW wedi ei rwymo i ddarparu dŵr yfed i'w ddefnyddio mewn unrhyw broses ddiwydiannol.*
- *Efallai y bydd angen i'r datblygwyr wneud cais am gysylltiad â'r brif garthffos o dan a 106 Deddf Diwydiant Dŵr 1991.*
- *Efallai y bydd angen i'r datblygwyr wneud cais am Gytundeb Mabwysiadu o dan a 104 Deddf Diwydiant Dŵr 1991;*
- *Mae'n rhaid i gynllun carthffosydd gydymffurfio â Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer Carthffosydd Budr Disgyrchiant a Draeniau Ochrol a 7^{ed} Argraffiad "Sewers for Adoption".*

Strategaeth Ddraenio'r Gorchymyn Datblygu Lleol

Gan ehangu ar yr ymatebion uchod o ran strategaeth ddraenio Gorchymyn Datblygu Lleol, argymhellir bod angen Strategaeth i gefnogi darpariaeth y Gorchymyn Datblygu Lleol. Dylai fod ar ffurf amodau cyn cychwyn a'r gofyniad i gyflwyno gwybodaeth (pan fo'n ofynnol) gan ymgeiswyr.

(a) Amodau

Er mwyn sicrhau bod y risg o beryglu'r system garthffosiaeth gyhoeddus cyn lleied â phosibl, gan effeithio ar ansawdd dŵr yn y CBEMMS, argymhellir y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnwys y mesurau canlynol yn y Gorchymyn Datblygu Lleol a Fabwysiadir ar ffurf amodau:

- Ni ddylai unrhyw newid defnydd gychwyn pan fydd yn arwain at orlwytho hydrologig y system garthffosiaeth gyhoeddus. Pan fo'n ofynnol ac y gofynnir amdani, dylid cyflwyno strategaeth ddraenio i Dŵr Cymru Welsh Water a dylai gael ei chymeradwyo ganddynt.
- Ni ddylai unrhyw newid defnydd gychwyn pan fydd yn arwain at beryglu cyfanrwydd unrhyw garthffos gyhoeddus a/neu asedau dŵr o'r prif gyflenwad ar y safle a/neu'n gyfagos ato. Pan fo'n ofynnol ac y gofynnir amdano, dylid cyflwyno asesiad i Dŵr Cymru Welsh Water sy'n egluro unrhyw effaith ac unrhyw gamau lliniaru pan fo angen, a dylai'r asesiad gael ei chymeradwyo ganddynt.

(b) Gofyniad i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth

Mae darpariaeth lwyddiannus y Gorchymyn Datblygu Lleol yn debygol o arwain at newidiadau i lefelau meddiannaeth. Ceir y potensial felly y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cynyddu llifoedd budr a ryddheir i'r rhwydwaith carthffosiaeth presennol. Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol i gapasiti carthffosydd, argymhellir bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd (pan fo'n briodol/yn ofynnol) i gyflwyno strategaeth ddraenio i DWCC ar gyfer pob cysylltiad â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Dylid rhoi'r gofyniad hwn ar waith trwy amodau cyn cychwyn y Gorchymyn Datblygu Lleol a argymhellir fel y nodir uchod. Mae hyn yn golygu, pan fo'n ofynnol gan DCWW ar y cam Tystysgrif o Gydydffurfiad (ac i fodloni'r amodau yn cychwyn perthnasol hynny a nodir yn y Gorchymyn Datblygu Lleol), mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd paratoi a chyflwyno strategaeth ddraenio i DCWW ei hadolygu. Bydd angen i DCWW gadarnhau bod hyn yn briodol cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno Cymeradwyaeth i'r Hysbysiad Cychwyn a bodloni'r amodau cyn cychwyn perthnasol hynny.

Os yw'n berthnasol, mae natur y wybodaeth sydd ei hangen ar DCWW yn annhebygol o fod yn feichus i ymgeiswyr gan fod y Gorchymyn Datblygu Lleol yn ceisio caniatáu newid defnydd unedau presennol. Fel prif ganllaw, efallai y bydd angen i'r wybodaeth ofynnol gynnwys y materion isod. Fodd bynnag, dylid gofyn am gadarnhad gan DCWW pan fo'n berthnasol.

- Lleoliad y datblygiad;
- Man cysylltu arfaethedig â'r rhwydwaith carthffosydd presennol;
- Math o ddatblygiad;
- Llifoedd rhyddhau presennol ac arfaethedig; a
- Pan fo'r math o ddatblygiad yn un preswyl, dylid nodi nifer yr adeiladau a / neu lefelau meddianaeth y cynllun.

Gwybodaeth Gefndirol

Mae gwaith ymchwil pellach gan WSP i bolisïau'r Cyngor a DCWW hefyd wedi datgelu'r wybodaeth ganlynol:-

- Ceir problemau gyda chapasiti carthffosydd cyfunol presennol yn ardal Llanelli.
- Mae strategaeth ar waith i leihau gollyngiadau Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol yn yr ardal, trwy leihau faint o lif storm sy'n cael ei ryddhau i'r rhwydwaith presennol.
- Mae mesurau draenio dŵr wyneb cynaliadwy (Prosiect Rainscape) wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar yn y dref i leihau dŵr wyneb ffo i'r system gyfunol.
- Mae gan y Cyngor ddull eglur ar gyfer ystyried dŵr wyneb wrth asesu Ceisiadau Cynllunio yn Nalgylch Gwaith Trin Carthffosiaeth Llanelli. Pan fo'n berthnasol, bydd angen i ddatblygiadau yn yr ardal gydymffurfio â darpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth amlasiantaeth.
- O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd datblygiadau'r dyfodol (pan fo'n berthnasol) yn cael eu cyflwyno ar sail '2 am 1' (h.y. bydd pob 1 l/s o lif dŵr budr a gynhyrchir gan y datblygiad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd 2 l/s o lif dŵr wyneb allan o'r system). Wrth nodi'r uchod, draenio yw'r prif fater seilwaith y mae angen ei adolygu ar unwaith ar gyfer darparu'r Gorchymyn Datblygu Lleol dros y 3 blynedd nesaf. Ni ragwelir y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol ei hun yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Cyfeirir at yr Adroddiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd.

- Bydd angen i'r system o waredu dŵr storm gynnwys atebion cynaliadwy i gydymffurfio â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Dylid nodi mai prin yw'r cwmpas ar gyfer atebion draenio cynaliadwy yng nghanol y dref, gydag eithriad posibl hen Safle Bragdy Buckley. Mae hyn oherwydd diffyg lle a thagfa o ran cyfleustodau o dan y ddaear. Hefyd, mae Cynllun Cyflenwi Canol Tref Llanelli yn ailddatblygiad yn hytrach na datblygiad newydd.

3.2 DŴR CYMRU / WELSH WATER – CYFLENWAD DŴR

Gwasanaethir canol y dref gan rwydwaith i bibellau dŵr (gweler Atodiad B). Mae pibellau haearn bwrw diamedr mawr (18 modfedd) yn bresennol yn West End, Sryd Vaughan a Stryd Stepney. Tybir mai'r rhain yw'r prif bibellau dosbarthu yw'r rhain. Ceir rhwydwaith o bibellau mwy modern llai hefyd yn amrywio o 75-150mm sy'n bresennol yn yr ardal astudio a thybir mai'r rhain yw'r pibellau cyflenwi. Ni ddangosir cyflenwadau i adeiladau unigol ar y lluniadau cofnod a byddai angen eu nodi maes o law.

Ymgynghorwyd â DCWW ar ymarferoldeb darparu cyflenwadau dŵr yfed i adeiladau wedi'u hailwampio. Heb gael rhestr o adeiladau â gofynion llif cymwysiadu glanweithiol nid yw'n bosibl bod yn benodol yn yr ymateb, fodd bynnag:-

- 1) Nid oes unrhyw waith mawr wedi ei gynllunio yn ystod y 5 mlynedd nesaf ar y prif bibellau dŵr
- 2) Nid oedd cynrychiolydd DCWW o'r farn bod unrhyw gyfyngiadau cyn belled ag y bo'r datblygiad yn waith ailwampio adeiladau presennol yn hytrach na datblygiadau cwbl newydd.
- 3) Os bydd unrhyw adeiladau wedi cael eu datgysylltu "dros dro", byddai'r ailgysylltiad am ddim.
- 4) Os bydd adeiladau wedi cael eu datgysylltu yn "barhaol", yna byddai angen gosod cysylltiad newydd o'r bibell gyflenwi. Gallai hyn olygu cloddio a gosod pibellau newydd yn y briffordd. Tua £1500 fyddai'r costau arferol ar gyfer pob cysylltiad.
- 5) Er mwyn darganfod pa adeiladau sydd wedi cael eu datgysylltu dros dro neu'n barhaol, byddai angen anfon rhestr o adeiladau i adran filio DCWW.
- 6) Ar gyfer ymateb mwy manwl, dylid darparu amserlen glanweithiol arfaethedig i bob adeilad a gwneud ymholiad cyn cynllunio i DCWW.

3.3 WALES AND WEST – CYFLENWAD NWY

Gwasanaethir canol y dref gan rwydwaith o bibellau nwy pwysedd isel (gweler Atodiad C). Dangosir cyflenwadau i adeiladau unigol mewn rhai achosion, fel ASDA ac unedau mawr eraill. Fodd bynnag, ni ddangosir pob cyflenwad unigol ar y lluniadau cofnod a byddai angen eu nodi maes o law.

Ymgynghorwyd â Wales and West Utilities (WU) ar ymarferoldeb darparu cyflenwadau nwy i adeiladau wedi'u hailwampio. Heb gael rhestr o adeiladau â gofynion llif nwy nid yw'n bosibl bod yn benodol yn yr ymateb, fodd bynnag:-

- 1) Ni ragwelir unrhyw broblemau o ran darparu cyflenwad nwy yng nghanol y dref
- 2) Ceir gwaith uwchraddio parhaus ar y rhwydwaith nwy yn yr ardal ar hyn o bryd.
- 3) Er mwyn darganfod pa adeiladau sydd wedi eu cysylltu, dylid anfon rhestr o adeiladau mewn e-bost i WU fel y gallant gynghori.

3.4 WESTERN POWER DISTRIBUTION – CYFLENWAD TRYDAN

Gwasanaethir canol y dref gan rwydwaith o lwybrau cyflenwi tanddaearol foltedd uchel (11 cilofolt) a foltedd isel (gweler Atodiad Ch) Dangosir cyflenwadau i adeiladau unigol mewn rhai achosion, fel

ASDA ac unedau mawr eraill. Fodd bynnag, ni ddangosir pob cyflenwad unigol ar y lluniadau cofnod a byddai angen eu nodi maes o law.

Ymgynghorwyd â Western Power (WPD) ar ymarferoldeb darparu cyflenwadau trydan. Cyfeiriwyd yr ymholiad at eu tîm yng Ngorllewin Abertawe a ymatebodd trwy e-bost fel a ganlyn:-

Bydd angen cynigion/cynlluniau mwy manwl arnom i ateb eich ymholiadau gan y byddant yn effeithio ar wahanol is-orsafoedd sydd wedi eu gosod ar y tir yng nghanol y dref.

3.5 BRITISH TELECOM – TELATHREBU

Gwasanaethir canol y dref gan rwydwaith o ddwythellau BT tanddaearol (gweler Atodiad D). Ni ddangosir cyflenwadau i adeiladau unigol ar y lluniadau cofnod a byddai angen eu nodi maes o law.

Gwnaed asesiad hefyd o argaeledd presennol band eang cyflym iawn (*) yn seiliedig ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru https://beta.llyw.cymru/cyflymu/a-alla%27i-ei-gael?_ga=2.158508986.1041487527.1510597751-1959934163.1509372028 yn seiliedig ar ddetholiad o godau post o gwmpas ac o fewn yr ardal astudio. Caiff hwn ei grynhoi yn Nhabl 1 drosodd:-

(*) Sylwer bod Llywodraeth y DU yn diffinio band eang cyflym iawn fel mwy na 25 megabit yr eiliad

Enw'r Ffordd	Band Eang Cyflym iawn ar gael (Chwiliwyd ar 12 Mai 2017)	Sylwadau
Stryd Hall	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Stryd Thomas	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Yr Ynys	Nac ydy	Cabinet ar waith yn aros i gael ei uwchraddio gan BT
Rhes Seion	Nac ydy	Cabinet ar waith yn aros i gael ei uwchraddio gan BT
Maes Stepney	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Stryd y Crochendy	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Stryd Robinson Uchaf	Ydy	Hyd at 64 megabit yr eiliad
Stryd Murray	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Stryd Cowell	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad
Stryd John	Nac ydy	Yn barod ar gyfer cyflwyno ffibr i'r cabinet
Heol yr Orsaf	Nac ydy	Yn barod ar gyfer cyflwyno ffibr i'r cabinet
Stryd Stepney (gorllewin)	Ydy	Hyd at 69 megabit yr eiliad
Stryd yr Eglwys	Nac ydy	Yn barod ar gyfer cyflwyno ffibr i'r cabinet
Stryd y Bont	Ydy	Hyd at 80 megabit yr eiliad

Stryd Vaughan	Nac ydy	Cabinet wedi ei alluogi ond ddim yn barod ar gyfer band eang cyflym iawn eto
Stryd Stepney (canol)	Nac ydy	Cabinet wedi ei alluogi ond ddim yn barod ar gyfer band eang cyflym iawn eto
Stryd y Farchnad	Nac ydy	Cabinet wedi ei alluogi ond ddim yn barod ar gyfer band eang cyflym iawn eto

Tabl 1 – Argaeledd Band Eang Cyflym iawn yn yr Ardal Astudio.

3.6 VIRGIN MEDIA – TELATHREBU

Gwasanaethir rhan gyfyngedig o ganol y dref gan rwydwaith o ddwythellau Virgin Media tanddaearol (gweler Atodiad Dd). Ni ddangosir cyflenwadau i adeiladau unigol ar y lluniadau cofnod a byddai angen eu nodi maes o law.

Mae dwythellau Virgin Media wedi eu cyfyngu i'r strydoedd canlynol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn:-

- Heol yr Orsaf
- Stryd yr Eglwys
- Stryd y Bont
- Rhes Seion
- Stryd y Parc

4 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION - GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL

4.1 CASGLIADAU - GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL

Yn dilyn adolygiad o'r cyfleustodau presennol yn yr ardal astudio, canfuwyd fod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan ddraeniau, cyflenwad dŵr, nwy, trydan a chyfathrebu yn gyffredinol.

Nid oes unrhyw arwydd cadarn o ran capasiti nwy a thrydan o ran y Gorchymyn Datblygu Lleol. Dylid nodi y bydd Western Power a Wales and West Utilities yn cael eu cynnwys ar y rhestr hysbysu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel y cyfryw, gallent (o dan amgylchiadau priodol) godi pryderon a/neu ofynion gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a / neu'r ymgeisydd.

4.2 ARGYMHELLION - GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL

Argymhellir bod y Strategaeth Ddraenio yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi darpariaeth y Gorchymyn Datblygu Lleol pan fo'n berthnasol. Dylai fod ar ffurf amodau cyn cychwyn a'r gofyniad i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth (yn ôl y gofyn). Cyfeirir at adran 3.1 yr adroddiad hwn.

5 CYFYNGIADAU

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar chwiliadau a wnaed ar gronfeydd data y cwmnïau cyfleustodau eu hunain ym mis Mai 2017.

LLYFRYDDIAETH

- Dŵr Cymru / Welsh Water – cyflenwad dŵr a charthffosiaeth
<https://gismaps.dwrcymru.com/umv/viewer.aspx?profile=external>
- Wales & West – cyflenwad nwy
<https://radar.wwutilities.co.uk/radarexternal/Base/Login/Login.aspx?ReturnUrl=%2fradarexternal%2fSites%2fexternalviewer%2f>
- Western Power Distribution – cyflenwad trydan
<http://www.linsearchbeforeudig.co.uk/#>
- British Telecom – telathrebu
<https://www.swns.bt.com/pls/mbe>
- Virgin Media – telathrebu
<http://utilities.digdat.co.uk/Account/Login.aspx>

